



Comisiwn Ffiniau i Gymru

---

Arolwg 2018 o Etholaethau Seneddol

---

# Canllaw ar gyfer y Gwrandawiadau Cyhoeddus

## Mae'r Comisiwn yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg neu yn Saesneg

© Hawlfraint y Goron 2016

Gallwch aildefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i <http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence> neu anfonwch neges e-bost: [psi@nationalarchives.gsi.gov.uk](mailto:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk)

Lle'r ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn at y Comisiwn yn [comffin.cymru@cymru.gsi.gov.uk](mailto:comffin.cymru@cymru.gsi.gov.uk)

Mae'r ddogfen hon ar gael ar ein gwefan hefyd yn [www.comffin-cymru.gov.uk](http://www.comffin-cymru.gov.uk)

## Cefndir a Diben yr Arweiniad

Rhodddwyd Cydsyniad Brenhinol i Ddeddf System Bleidleisio Seneddol ac Etholaethau 2011 (Deddf PVSC) ar 16 Chwefror 2011. Roedd Deddf PVSC yn diwygio Deddf Etholaethau Seneddol 1986, sef y fframwaith statudol y cyfarwyddir y Comisiwn i gydymffurfio ag ef at ddiben cynnal arolygon o etholaethau yng Nghymru.

Yn ogystal â'r newid sylfaenol i ddyrannu etholaethau a'r rheolau ar gyfer creu etholaethau, diddymwyd y system ymchwiliadau cyhoeddus ac yn ei lle sefydlwyd gwrandawliadau cyhoeddus (gweler Atodlen 11 yn Atodiad 1).

Er bod yr Atodlen yn nodi rhai rheolau sydd yn perthnasol i'r gwrandawliadau cyhoeddus. Ddarostyngedig i'r rheolau hynny, bydd cynnal y gwrandawliadau cyhoeddus yn fater ar gyfer disgrisiwn y Cadeirydd gwrandawliad cyhoeddus. Er mwyn sicrhau cysondeb polisi, gweithdrefn ac arfer, ac i helpu sicrhau bod y gwrandawliadau'n rhedeg yn hwylus, mae'r Comisiwn wedi darparu arweiniad ar gyfer Cadeiryddion penodedig y gwrandawliadau cyhoeddus, ac mae'r arweiniad hwn ar gyfer y cyhoedd.

## Diben gwrandawliadau

Diben gwrandawliad cyhoeddus yw cynnig cyfle i bobl wneud cynrychiolaethau am unrhyw rai o gynigion cychwynol y Comisiwn, gan gynnwys enwi etholaethau, ac i gyflwyno unrhyw wrthgynigion. Yn wahanol i ymchwiliadau lleol y gorffennol, nid diben gwrandawliad cyhoeddus o dan y cynllun statudol diwygiedig yw canolbwyntio ar sylwadau am unrhyw wrthgynigion y gellir eu rhoi gerbron gan bobl eraill, gan y gellir gwneud hyn yn y cyfnod ymgynghori eilaidd.

## Nifer, lleoliadau a dyddiadau gwrandawliadau

Bydd y Comisiwn yn cynnal pum gwrandawliad cyhoeddus, pob un ohonynt dros ddau ddiwrnod (yr uchafswm a ganiateir gan y ddeddfwriaeth). Mae lleoliadau'r gwrandawliadau hyn, ar hyd a lled Cymru, wedi'u dewis er mwyn sicrhau cynnwys gymaint o ardaloedd â phosibl o ran hwylustod cyrraedd atynt. Cynhelir y gwrandawliadau cyhoeddus yn y lleoliadau, y manau cyfarfod ac ar y dyddiadau canlynol:

Lleoliad	Man Cyfarfod	Dyddiadau
Caerfyrddin	Ivy Bush Royal Hotel	12 – 13 Hydref 2016
Bangor	Canolfan Rheolaeth, Prifysgol Bangor	19 – 20 Hydref 2016
Caerdydd	Mercure Holland House	26 – 27 Hydref 2016
Llandrindod	Metropole Hotel	02 – 03 Tachwedd 2016
Wrecsam	Canolfan Catrin Finch, Prifysgol Glyndwr	09 – 10 Tachwedd 2016

## Mynychu'r gwrandawiadau

Os dymunwch fynychu gwrandawriad cyhoeddus, byddai'r Comisiwn yn ddiolchgar pe byddech yn ysgrifennu at y Comisiwn Ffiniau i Gymru, Tŷ Hastings, Llys Fitzalan, Caerdydd CF24 0BL, anfonwch ffacs i 029 2039 5250, neu e-bost i [comffin.cymru@cymru.gsi.gov.uk](mailto:comffin.cymru@cymru.gsi.gov.uk).

Yn eich cais byddem yn ddiolchgar pe byddech yn cynnwys:

Eich enw

Cyfeiriad

Rhif ffôn

Cysylltiad (os oes un)

Y gwrandawriad(au) y byddech yn hoffi'i fynychu (yn nhrefn eich dewis)

Y dyddiad(au) a'r amser(au) y byddech ar gael i siarad (yn nhrefn eich dewis).

Bydd pawb sy'n gwneud cais am fod yn bresennol yn cael cydnabyddiaeth.

Ryw wythnos cyn y gwrandawriad cyhoeddus, cysylltir â'r rheiny a wnaeth gais i gael mynychu, a rhoddir slot amser bras iddynt. Yn ogystal â hyn, er mwyn cynorthwyo'r cyfieithwyr a'r trawsgrifwyr, gofynnir i gyfranogwyr ddarparu'u nodyn siarad o flaen llaw. Nid yw hyn yn orfodol, ond byddai'n hwyluso pethau'n fawr yn y gwrandawiadau.

Bydd cyfleusterau ar gael ym mhob un o'r lleoliadau i ddarparu cyflwyniad electronig. Os yw cyfranogwr yn dymuno gwneud cyflwyniad bydd angen darparu hwn o flaen llaw er mwyn sicrhau ei fod yn gydnaws â'r feddalwedd yn y man cyfarfod. Os na chaiff ei ddarparu o flaen llaw, ni all y Comisiwn warantu y bydd cyfranogwyr yn gallu gwneud cyflwyniad electronig.

Os bydd nifer fawr iawn yn gofyn am gael siarad mewn gwrandawriad cyhoeddus, efallai y caiff ail ddewis/slot lleoliad gwrandawriad cyhoeddus arall ei gynnig yn lle'r un a fyddai orau gan gyfranogwr. Er y byddwn yn ymdrechu i osgoi anawsterau o'r fath, ni all y Comisiwn warantu y bydd cyfranogwyr yn gallu gwneud cynrychiolaethau ar yr amser, y dyddiad neu yn y man cyfarfod y gallai fod yn well ganddo/ganddi.

### Y Cyfryngau

Gall cynrychiolwyr o'r cyfryngau fod yn bresennol mewn gwrandawriad, yn dymuno recordio datganiadau agoriadol neu gynnal cyfweiliadau yn lleoliad y gwrandawriad neu o gwmpas y lleoliad. Y Cadeirydd sydd i benderfynu ynglŷn â beth ganiateir neu na chaniateir iddynt ei recordio yn y gwrandawriad, a delir â hyn ar gais. Gofynnir i'r rheiny sy'n dymuno gwneud cynrychiolaethau mewn gwrandawriad ond nad ydynt yn dymuno i'r cynrychiolaethau hynny gael eu recordio i ddweud hynny wrth y Comisiwn mor gynnar ag y bo modd.

### Cyfryngau Cymdeithasol gan gynnwys Ffrydio yn fyw

Efallai bydd rhai sy'n bresennol yn y gwrandawriad yn dymuno trydar, negesu neu tecstio yn ystod gwrandawriad, neu ran o wrandawriad. Caniateir hyn ar yr amod y gwneir hyn pan fydd y ddyfais yn dawel. Fodd bynnag, bydd ffotograffiaeth yn cael eu gwahardd, ond caniateir yn ôl disgrisiwn y Cadeirydd a bydd yn delio â ar gais.

Efallai bydd rhai sy'n bresennol yn y gwrandawriad am ffrydio gwrandawriad, neu ran o wrandawriad, yn fyw drwy sianel cyfryngau cymdeithasol. Mae'n ôl disgresiwn y Cadeirydd ynghylch beth y bydd neu na fydd yn caniatáu i ffrydio y gwrandawriad a fydd yn ymdrin â ar gais.

Bydd y Cadeirydd yn cadw'r hawl i ofyn i bobl i ymatal rhag unrhyw weithgarwch y gallant ystyried yw tarfu ar y trafodion.

## Y weithdrefn mewn gwrandawriadau

### Hyd

Bydd dau ddiwrnod gwrandawriad cyhoeddus yn cael eu trefnu mewn modd tebyg, ond bydd hyd y ddau ddiwrnod yn wahanol:

Bydd Diwrnod Un gwrandawriad yn dechrau am 10am ac yn dod i ben am 8pm. Bydd hyn yn rhoi'r cyfle i aelodau'r cyhoedd wneud cynrychiolaethau y tu allan i oriau swyddfa arferol.

Bydd Diwrnod Dau yn dechrau am 9am ac yn dod i ben am 5pm.

### Recordio a Thrawsgrifio

Trefnir bod recordiad a thrawsgrifiad o bob gwrandawriad ar gael yn dilyn y cyfnod ymgynghori cychwynnol i bartion â diddordeb wneud sylwadau arnynt yn ystod y cyfnod ymgynghori eilaidd. Felly, rhaid recordio pob rhan o'r gwrandawriad drwy'r microffonau a ddarperir. Gall hyn olygu y gofynnir i gyfranogwyr ailadrodd yr hyn a ddywedwyd i mewn i'r microffon ar gyfer y cofnod, hyd yn oed os y'i clywyd gan y Cadeirydd a chyfranogwyr a mynychwyr eraill.

### Cychwyn

Yn unol â Deddf PVSC, bydd y Cadeirydd yn agor bob diwrnod o'r gwrandawriad gyda chyflwyniad byr a fydd yn cynnwys sut y gellir mynd ati i wneud cynrychiolaethau ysgrifenedig ynglŷn â'r cynigion.

Delir hefyd ar yr adeg hon â materion cadw tŷ, fel larymau tân, cyfleusterau toiled, defnyddio ffonau symudol a cyfryngau cymdeithasol a manylion pa bryd y cynlluniwyd egwylion, ac am ba hyd.

Ar ôl y cyflwyniad, bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn darparu cyflwyniad byr a fydd yn cynnwys esboniad o'r cynigion y mae a wnelo'r gwrandawriad â nhw.

Ni fydd y cyflwyniad gan yr Ysgrifenyddiaeth yn gyfle i'r rheiny sy'n bresennol ofyn cwestiynau i'r Comisiwn neu'r Ysgrifenyddiaeth am y cynigion cychwynnol.

## COMISIWN FFINIAU I GYMRU

### Trefn Cynrychiolaethau

Ryw wythnos cyn y gwrandawriad cyhoeddus bydd yr Ysgrifenyddiaeth i'r Comisiwn yn hysbysu cyfranogwyr o'u slot. Rhestrir y drefn hon ar y ddesg flaen neu gerllaw ym mhob gwrandawriad cyhoeddus.

### Cynrychiolaethau

Cyn belled ag y bo modd, caiff siaradwyr eu galw yn y drefn a gytunwyd. At ddibenion cyfieithu, gofynnir i'r siaradwr gadarnhau a fydd y cynrychiolaethau'n cael eu gwneud yn Gymraeg neu yn Saesneg. At ddibenion recordio, bydd y Cadeirydd yn gofyn i'r siaradwr gadarnhau ei enw/ henw, diddordeb (cymdeithas wleidyddol, ac ati), ac os yw'n briodol, ble mae'n byw.

Yn dilyn y gynrychiolaeth efallai y gofynnir i'r siaradwr gan y Cadeirydd i esbonio rhai pwyntiau. Dim ond drwy'r Cadeirydd y gall y gynulleidfa wneud ceisiadau am esboniad.

Mae'r Comisiwn yn awgrymu bod cwestiynau'n cael eu cyfyngu i bwyntiau esbonio ac na ddylid caniatáu croesholi. Y cyfnod ymgynghori eilaidd yw'r cyfle i wneud sylwadau ar gynrychiolaethau eraill. At ddibenion recordio, bydd y Cadeirydd yn gofyn i'r sawl sy'n ceisio esboniad i gadarnhau ei enw neu ei henw, diddordeb (cymdeithas wleidyddol, ac ati), ac, os yw'n briodol, yr ardal lle mae'n byw, cyn gofyn cwestiwn.

Cymerir egwylliau cyson trwy gydol bob diwrnod. Caiff y rhain eu cynnwys yn nhrefn y rhaglen.

## Atodiad 1

### ATODLEN 11

#### GWRANDAWIADAU CYHOEDDUS YNGLŶN Â CHYNIGION Y COMISIWN FFINIAU

Mae'r Atodlen y cyfeirir ati yn adran 12(2) fel a ganlyn—

Adran 5

“ATODLEN 2A gwrandawiadau cyhoeddus ynglŷn â chynigion y Comisiwn Ffiniau

#### *Diben gwrandawiadau*

- 1 Diben gwrandawriad cyhoeddus yw galluogi gwneud cynrychiolaethau ynglŷn ag unrhyw un o'r cynigion y mae a wnelo'r gwrandawriad ag ef.

#### *Nifer y gwrandawiadau*

- 2 (1) Mewn perthynas ag unrhyw adroddiad penodol o dan adran 3(1)(a) o'r Ddeddf hon—

(a) bydd y Comisiwn Ffiniau i Loegr yn cychwyn o leiaf dau ac nid mwy na phump o wrandawiadau cyhoeddus i'w cynnal ym mhob rhanbarth yn Lloegr;

(b) bydd y Comisiwn Ffiniau i'r Alban yn cychwyn o leiaf dau ac nid mwy na phump o wrandawiadau cyhoeddus i'w cynnal yn yr Alban;

(c) bydd y Comisiwn Ffiniau i Gymru yn cychwyn o leiaf dau ac nid mwy na phump o wrandawiadau cyhoeddus i'w cynnal yng Nghymru;

(d) bydd y Comisiwn Ffiniau i Ogledd Iwerddon yn cychwyn o leiaf dau ac nid mwy na phump o wrandawiadau cyhoeddus i'w cynnal yng Ngogledd Iwerddon.

(2) Bydd y gwrandawiadau cyhoeddus mewn rhanbarth yn Lloegr yn ymwneud â chynigion ar gyfer y rhanbarth hwnnw, a byddant rhyngddynt yn cwmpasu'r rhanbarth cyfan.

(3) Bydd y gwrandawiadau cyhoeddus yn yr Alban yn ymwneud â chynigion ar gyfer yr Alban, a byddant rhyngddynt yn cwmpasu'r Alban gyfan.

(4) Bydd y gwrandawiadau cyhoeddus yng Nghymru yn ymwneud â chynigion ar gyfer Cymru, a byddant rhyngddynt yn cwmpasu Cymru gyfan.

(5) Bydd y gwrandawiadau cyhoeddus yng Ngogledd Iwerddon yn ymwneud â chynigion ar gyfer Gogledd Iwerddon, a byddant rhyngddynt yn cwmpasu Gogledd Iwerddon gyfan.

#### *Cadeirydd gwrandawriad*

- 3 Ar gyfer pob gwrandawriad cyhoeddus bydd y Comisiwn Ffiniau dan sylw yn penodi unigolyn i gadeirio'r gwrandawriad.

#### *Hyd gwrandawiadau*

- 4 Bydd gwrandawriad cyhoeddus yn cael ei gwblhau o fewn deuddydd.

## COMISIWN FFINIAU I GYMRU

### *Y weithdrefn mewn gwrandawiadau*

- 5 Cadeirydd pob un o'r gwrandawiadau cyhoeddus sydd i benderfynu ar y weithdrefn a fydd yn llywodraethu'r gwrandawriad hwnnw.
- 6 Bydd y Cadeirydd yn gwneud trefniadau i wrandawriad cyhoeddus ddechrau gydag esboniad o—
- y cynigion y mae a wnelo'r gwrandawriad â nhw;
  - sut gellir mynd ati i wneud cynrychiolaethau ysgrifenedig am y cynigion (fel y sonnir amdanynt yn adran 5(1)(a), (4)(b) neu (5)(c) o'r Ddeddf hon).
- 7 (1) Rhaid i gadeirydd gwrandawriad cyhoeddus ganiatáu i gynrychiolaethau gael eu gwneud—
- gan bob parti cymwys;
  - gan unrhyw bersonau eraill (boed yn unigolion neu sefydliadau) yr ystyria'r cadeirydd bod ganddynt ddiddordeb yn unrhyw un o'r cynigion y mae a wnelo'r gwrandawriad â nhw. Daw paragraff (b) uchod i rym yn amodol ar is-baragraff (3)(b) isod.
- (2) Gall y cadeirydd gyfyngu ar faint o amser a ganiateir ar gyfer cynrychiolaethau—
- gan bartïon cymwys, a
  - gan bersonau eraill,
- ac nid oes angen iddo ganiatáu'r un amser i bob un ohonynt.
- (3) Gall y cadeirydd benderfynu—
- y drefn ar gyfer gwneud cynrychiolaethau, a
  - os yw'n angenrheidiol oherwydd prinder amser, pa rai o'r rheiny sy'n dymuno gwneud cynrychiolaethau nad ydynt yn cael gwneud hynny, ym mha ffordd bynnag y penderfyna'r cadeirydd.
- 8 (1) Gall y cadeirydd ofyn cwestiynau, neu ganiatáu i gwestiynau gael eu gofyn, i unigolyn sy'n bresennol yn y gwrandawriad.
- (2) Os caniateir gofyn cwestiynau, gall y cadeirydd reoleiddio'r dull o gwestiynu neu gyfyngu ar nifer y cwestiynau y gall unigolyn eu gofyn.

### *Dehongli*

9 Yn yr Atodlen hon—

- mae'r "cadeirydd" yn golygu'r unigolyn a benodir o dan baragraff 3 uchod;
- mae "rhanbarth yn Lloegr" yn golygu rhanbarth etholiadol a bennir yn Atodlen 1 i Ddeddf Etholiadau Senedd Ewrop 2002 (gan anwybyddu paragraff 2(2) o'r Atodlen honno a'r cyfeiriadau at Gibraltar) gan y daw i rym ar y diwrnod y cyfeirir ato yn rheol 5(2) o Atodlen 2 i'r Ddeddf hon;
- mae "gwrandawriad cyhoeddus" yn golygu gwrandawriad o dan adran 5(1)(b) o'r Ddeddf hon;



- mae “parti cymwys” yn golygu parti sydd wedi cofrestru o dan Rhan 2 o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 a naill ai—
  - (a) mae ganddo o leiaf un Aelod o Dŷ'r Cyffredin sy'n cynrychioli etholaeth yn y rhanbarth hwnnw, neu (yn ôl fel y digwydd) y rhan o'r Deyrnas Unedig, lle y cynhelir y gwrandawriad, neu
  - (b) a dderbyniodd o leiaf 10% o'r pleidleisiau a fwriwyd yn y rhanbarth hwnnw neu ran ohono yn yr etholiad cyffredinol seneddol mwyaf diweddar.”



(H) Hawfaint y Goron 2016